# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHIFAU GORLLEWIN MORGANNWG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1/2, CANOLFAN DDINESIG, PORT TALBOT. DYDD GWENER, 16 MEDI 2016 AM 11.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd D W Davies (Is-gadeirydd) yn llywyddu

**Cynrychiolwyr Dinas a Sir Abertawe**

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|
| P M Meara | R V Smith |

**Cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

| **Cynghorwyr** | **Cynghorwyr** |
|---|---|
| J Dudley | A Wingrave |

**Cynrychiolwyr y Sefydliadau Cysylltiedig:**

| | |
|---|---|
| L Miskell | Prifysgol Abertawe |
| J L Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| T McNulty | Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol |
| K Collis | Archifydd Sirol |
| D Michael | Pennaeth Cyfreithiol, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| W John | Llyfrgellydd Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| G Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorydd/wyr: K E Marsh, P A Rees ac C Thomas ac A Dulley a C Hodgson

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, cyhoeddwyd y buddion canlynol: -

Swyddog
D Michael – Cofnod Rhif 7 – Personol – Aelod o Bwyllgor Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd.

6 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

7 **ADRODDIAD ARCHIFYDD Y SIR.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau yn ystod y cyfnod o fis Mehefin i fis Awst 2016.

**Safon Achredu Archifau**

Dywedodd yr Archifydd Sirol fod y gwasanaeth wedi derbyn statws achredu dan y safon uchod ar gyfer ei fan gwasanaeth Abertawe. Mae Gwobr Safon Achredu Archifau'n diffinio arfer da ac yn cytuno ar safonau ar gyfer archifau ar draws y DU ac mae'n dangos llywodraethu da a gofal cywir o'r casgliadau.

Canmolodd y Panel Adolygu'n benodol y defnydd o gasgliadau'r archifau mewn gwaith allgymorth, gan gynnwys peth gwaith da gydag ysgolion, ac roedd yn meddwl bod y gwasanaeth mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r her o adleoli yn y dyfodol agos. Mae'r gwobr yn para am gyfnod o 5 mlynedd ac mae'n cael ei hadolygu ar ôl 2 flynedd.

Dywedodd y byddai angen i Gymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd gyflwyno cais ar wahân os oeddent am gael achrediad yn y dyfodol ac y byddai WGAS yn ei chefnogi gyda hyn os yw’n dymuno gwneud hynny. Roedd aelodau'n croesawu'r cynnig hwn.

**Archifau Cymdeithas Hynafiaethol Castell-nedd**

Dywedodd yr Archifydd Sirol fod y cyfleuster archifau yng Nghastell-nedd ar 1 Awst wedi symud i'w oriau agor newydd, gyda'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan staff o Abertawe'n gweithio gyda gwirfoddolwyr Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd.

Amlinellodd fod yr arwyddion cynnar yn dangos bod y trefniadau newydd yn gweithio'n dda gan nodi camau gweithredu er mwyn gwneud y casgliadau a'r adnoddau hanes teulu a gedwir yno'n fwy hygyrch i'r cyhoedd, y gellid ei gyflawni heb gost drwy gyhoeddusrwydd ar-lein gwell.

Dywedodd, drwy weithio gyda Chymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd, eu bod yn mynd i’r afael â’r broblem barhaus o leithder anwadal yn ystafell ddiogel yr archifau.

**Partneriaeth Archifau Rhanbarthol Gorllewin Cymru**

Dywedodd yr Archifydd Sirol na chafwyd mwy o gyfarfodydd o'r bartneriaeth yn dilyn cytundeb ar gynnwys ail adroddiad yr ymgynghorydd.

Bydd gwaith y dyfodol yn cael ei ddatblygu gan Fwrdd Prosiectau Strategol newydd Prifysgol Abertawe a fydd yn dechrau cwrdd yn yr hydref.

**Defnydd o'r Gwasanaeth - Ystadegau ar gyfer mis Mehefin - mis Awst 2016**

Adroddodd yr Archifydd Sirol am y defnydd o'r gwasanaeth ar gyfer y chwarter.

Nododd nad oedd yr ystadegau ar gyfer ymweliadau electronig â'r we etc ar gael ar adeg argraffu, ond byddai'n trosglwyddo'r ffigurau hyn i'r pwyllgor.

**Allgymorth y Gwasanaeth**

Adroddodd yr Archifydd Sirol am y meysydd gwaith amrywiol yr oedd staff wedi bod yn ymwneud â hwy yn ystod y chwarter.

Nododd fod y gwasanaeth yn parhau i gymryd rhan ym mhrosiect 'Visions of Steel' Prifysgol Abertawe, mae wedi creu arddangosfeydd sy'n ymwneud â stadau yn Townhill (Abertawe) a Sandfields (Port Talbot) a gafodd eu harddangos yn ystod ymweliad gweinidog Llywodraeth Cymru ag Abertawe'n ddiweddar, ac ynghyd â Llyfrgelloedd Abertawe wedi cynnal rhaglen 'The Listening Project' Radio 4 y BBC yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe.

**Cyfarfodydd Proffesiynol a Gweithio Mewn Partneriaeth**

Cyfeiriodd yr Archifydd Sirol at y cyfarfodydd a hyfforddiant proffesiynol y bu staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter diwethaf.

**Casgliadau Archifau**

Er gwybodaeth, atodwyd rhestr gynhwysfawr o archifau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Mai 2016 yn Atodiad 1.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.50 am

**CADEIRYDD**